# Rhestr Wirio Hawl i Weithio

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Unigolyn:** | | |
| **Dyddiad y Gwiriad:** | | |
| **Math o Wiriad:** | Gwiriad cychwynnol cyn cyflogaeth | ☐ |
| | Gwiriad olrhain ar gyflogai | ☐ |

Gallwch wirio dogfen ar-lein neu wneud gwiriad ar-lein er mwyn sefydlu os oes gennych hawl i weithio. Pan fyddwch wedi gwneud gwiriad hawl i weithio drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein, bydd y wybodaeth yn cael ei darparu mewn amser go iawn, yn uniongyrchol i systemau'r Swyddfa Gartref ac ni fydd angen gweld y dogfennau a restrir isod.

**Cam 1 Gwirio**

- Mae'n rhaid i chi gael dogfennau gwreiddiol o naill ai **Restr A neu B** o'r dogfennau derbyniol am gyfer gwirio.

**Rhestr A**

☐ 1. Pasbort **(cyfredol neu sydd wedi dod i ben)** yn dangos y deiliad, neu berson sydd wedi ei enwi ar y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd Prydeinig neu ddinesydd yn y DU a'r Trefedigaethau sydd â hawl i breswylio yn y DU.

☐ 2. Pasbort neu gerdyn pasbort **(cyfredol neu sydd wedi dod i ben)** yn dangos fod y deiliad yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon.

☐ 3. Dogfen **gyfredol** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu dinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ac sydd yn dynodi fod gan y deiliad hawl i aros yn y DU yn barhaol.

☐ 4. Dogfen gan Bailiwick, Jersey, Bailiwick, Guernsey neu Ynys Manaw sydd wedi cael ei gwirio gan Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref sydd yn dangos fod y deiliad wedi cael caniatâd i gael mynediad neu aros yn barhaol o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo
Jersey, Atodiad yr UE i Fewnfudo (Bailiwick, Guernsey) Rheolau 2008 neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw.

☐ 5. Dogfen Mewnfudo Biometreg **gyfredol** (trwydded breswyl biometreg) y Swyddfa Gartref i'r deiliad yn dynodi fod gan yr unigolyn a enwir yr hawl i aros yn y DU yn barhaol neu nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad yn y DU.

☐ 6. Pasbort **cyfredol** yn ardystio fod y deiliad wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, bod hawl ganddo aros am gyfnod amhenodol yn y DU, gyda hawl i breswylio yn y DU neu nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad yn y DU.

☐ 7. Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** y Swyddfa Gartref gydag ardystiad yn nodi fod gan yr unigolyn a enwir hawl i aros am gyfnod amhenodol yn y DU neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad yn y DU, ynghyd â dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

☐ 8. Tystysgrif geni neu fabwysiadu yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

☐ 9. Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyhoeddwyd gan ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon **ynghyd â** dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

☐ 10. Tystysgrif cofrestru neu frodori fel dinesydd Prydeinig **ynghyd â** dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

## Rhestr B Grŵp 1

☐ 1. Pasbort **cyfredol** wedi ei ardystio i ddangos fod caniatâd gan y deiliad i aros yn y DU a bod hawl ganddo i wneud y math hwn o waith.

☐ 2. Dogfen Mewnfudo Biometreg **gyfredol** (trwydded breswyl biometreg) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sydd yn dynodi y gall yr unigolyn a enwir aros yn y DU a bod caniatâd ganddo wneud y math hwn o waith.

☐ 3. Dogfen **gyfredol** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu i ddinesydd o'r Swistir ac sydd yn dynodi hawl y deiliad i aros yn y DU am gyfnod penodol o amser ac i wneud y math hwn o waith.

☐ 4. Dogfen a gyhoeddwyd gan Bailiwick Jersey, Bailiwick Guernsey neu Ynys Manaw sydd wedi cael ei wirio gan Wasanaeth Cyflogai'r Swyddfa Gartref sydd yn dangos fod gan y deiliad hawl i gael mynediad neu aros o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Bailiwick Guernsey) 2008 neu Atodiadau'r UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw.

☐ 5. Dogfen a gyhoeddwyd gan Bailiwick Jersey neu Bailiwick Guernsey, sydd wedi ei wirio'n gymwys gan Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref ac sydd yn dangos fod y deiliad wedi gwneud cais i gael mynediad neu barhau o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey neu i Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Bailiwick Guernsey) 2008, ar neu cyn 30 Mehefin 2021.

☐ 6. Caniatâd gweithiwr trawsffiniol a gyhoeddwyd o dan reoliad 8, Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Gadael yr UE) 2020.

☐ 7. Dogfen statws mewnfudo **gyfredol** yn cynnwys ffotograff a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad ac sydd wedi'i ardystio er mwyn dynodi y gall yr unigolyn a enwir aros yn y DU a bod ganddo ganiatâd i wneud y math hwn o waith, ynghyd â dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r llywodraeth neu gan gyflogwr blaenorol.

## Rhestr B Grŵp 2

1. Dogfen a gyflwynywd gan y Swyddfa gartref yn dangos fod y deiliad wedi gwneud cais i gael mynediad neu i barhau o dan Atodiad yr UE i'r rheolau mewnfudo ar neu cyn 30 Mehefin 2021, **ynghyd â Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref.
2. Dogen a gyhoeddwyd gan Bailiwick Jersey, Bailiwick Guernsey yn dangos fod y deiliad wedi gwneud cais i gael mynedioad neu barhau o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Bailiwick Guernsey) 2008 ar neu cyn 30 Mehefin 2021 **ynghyd â Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref.
3. Cerdyn cofrestru cais a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn nodi fod hawl gan y deiliad i wneud y gwaith **ynghyd â Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol gan** Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref.
4. **Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogai'r Swyddfa Gartref i'r cyflogwr neu'r darpar gyflogwr yn nodi y gall y person a nodir aros yn y DU i wneud y gwaith.

## Cam 2 –

## Gwirio

Mae'n rhaid i chi **wirio** fod y dogfennau'n rhai cywir a bod mai'r unigolyn sydd yn eu cyflwyno yw'r darpar gyflogai neu cyflogai, y deiliad cywir a bod hawl ganddo wneud y gwaith.

| | Ydyn | Nac ydyn | Amh |
|---|---|---|---|
| 1. Ydi'r lluniau'n gyson ag edrychiad yr unigolyn, ymhob un ddogfen? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Ydi'r dyddiad geni'n gyson ymhob un ddogfen? | Ydyn | Nacydyn | Amh |
| 3. Ydi'r dyddiadau ar gyfer caniatâd i aros yn y DU yn y dyfodol h.y. ddim wedi dod i ben (os yn berthnasol?) | Ydyn | Nacydynt | Amh |
| 4. A ydych wedi gwirio cyfyngiadau gwaith er mwyn penni os all yr unigolyn wneud y math o waith sydd o dan sylw? (ar gyfer **myfyrwyr** sydd â hawl cyfyngedig i weithio yn ystod y tymor, **mae'n rhaid** i chi hefyd gadw manylion o'u tymor academaidd a gwyliau yn ystod cyfnod neu arhosiad yn y DU y byddant yn cael eu cyflogi.) | Ydw | Nacydw | Amh |
| 5. A ydych chi'n fodlon fod y ddogfen yn gywir, nad yw wedi cael ei newid ac mai'r deiliad sydd ei pherchen? | Ydw | Nacydw | Amh |
| 6. A ydych chi wedi gwirio'r rhesymau dros unrhyw enwau gwahanol sydd yn y dogfennau (e.e. tystysgrif priodas, ysgariad, newid enw?) (Dylai dogfennau cefnogol gael eu ffotogopio a'u cadw.) | Ydw | Nacydw | N/A |

**Cam 3 – Copi**

Mae'n rhaid i chi wneud copi clir o bob dogfen mewn fformat na all gael ei addasu'n hwyrach a'i gadw'n ddiogel; yn electronig neu ar bapur. Mae'n rhaid i chi gopïo a chadw:

1. **Pasbortau:** unrhyw dudalen lle y nodir dyddiad dirwyn i ben, cenedligrwydd, dyddiad geni, enw, dyddiad gadael, manylion biometreg a lluniau ac unrhyw dudalen sydd yn cynnwys gwybodaeth sydd yn nodi fod gan y deiliad ganiatâd i gael mynediad i'r DU a gwneud y gwaith sydd o dan sylw.
2. **Pob dogfennaeth arall:** y ddogfen yn llawn, dwy ochr y caniatáu hawl preswyl biometreg. **Mae'n rhaid i chi hefyd nodi'r dyddiad y gwnaethpwyd y gwiriad.**

**Mae'n rhaid i chi feddu ar ddogfennau gwreiddiol o naill ai rhestr A neu B sydd yn gymwys ar gyfer gwiriad yr Hawl i Weithio.**

**Gwybod y math o esgus sydd gennych**

Os ydych wedi gweithredu'r 3 cam uchod, bydd gennych esgus yn erbyn atebolrwydd cosb sifil os bydd yr unigolyn a enwir yn gweithio i chi yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae angen i chi fod yn ymwybodol fod y math o esgus yn pennu am ba mor hir y bydd hyn yn berthnasol ac os bydd angen i chi wneud gwiriad arall.

Bydd y dogfennau y byddwch wedi'u gwirio a'u copïo yn dod o:

1. **Rhestr A.** Mae gennych **esgus statudol parhaus** ar gyfer **holl gyfnod** cyflogaeth yr unigolyn. Nid oes angen i chi weithredu rhagor o wiriadau gwaith.
2. **Rhestr B: Grŵp 1** Mae gennych **gyfyngiad amser ar yr esgus statudol** sydd yn dod i ben pan fydd caniatâd yr unigolyn i aros yn y DU yn dod i ben. Dylech wneud **gwiriad arall pan fydd y ddogfen yn dangos fod ei ganiatâd i weithio yn dirwyn i ben.**
3. **Rhestr B: Grŵp 2** Mae gennych **gyfyngiad amser statudol ar yr esgus** a fydd yn dirwyn i ben ymhen chwe mis o'r dyddiad a nodir ar yr Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol. **Mae hyn yn golygu na ddylech newid unrhyw wiriadau pellach ar ôl i ddyddiad yr hysbysiad ddirwyn i ben.**

## Gwasanaeth gwirio ar-lein y Swyddfa Gartref

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth gwirio ar-lein yn cefnogi gwiriadau sydd yn ymwneud â'r sawl sydd yn meddu ar:

- ganiatâd preswyl biometreg; neu
- gerdyn preswyl biometreg; neu
- statws a gyhoeddwyd o dan Gynllun Setliad yr UE; neu
- statws a gyhoeddwyd o dan y system mewnfudo ar sail pwyntiau; neu
- Fisa Tramor Prydeinig (BNO;) NEU
- Caniatâd Gweithiwr Trawsffiniol

Mae tri cham sylfaenol er mwyn gwneud gwiriad hawl i weithio ar-lein:

1. Defnyddiwch wasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref (Gweler y dudalen 'Gweld manylion hawl i weithio ymgeisydd' ar GOV.UK) a sicrhewch eich bod yn cyflogi'r unigolyn neu'n parhau i gyflogi cyflogai presennol os yw'r gwiriad ar-lein yn sicrhau fod hawl ganddynt wneud y gwaith sydd o dan sylw;
2. sicrhewch fod unrhyw lun o'r unigolyn sydd ar y gwiriad hawl i weithio yn gywir; a
3. cadwch gopi o'r ymateb a ddarparir gan y gwiriad hawl i weithio (gan storio'r ymateb hwnnw'n ddiogel, yn electronig neu ar bapur) am holl hyd y gyflogaeth ac am ddwy flynedd wedi hynny.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud gwiriad personol ac ar-lein ar **GOV.UK/government/collections/right-to-work-checks-employer-guidance**